**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **24 Mawrth 2023** |
| **Teitl:** | **Adroddiad ynghylch arolwg arfarnu'r Aelodau** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried canfyddiadau'r arolwg** |

**Cyflwyniad**

Mae Adran 7, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, wedi'i hatgyfnerthu gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

1. *Rhaid i awdurdod lleol sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w aelodau.*
2. *Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu'r aelod ar gael i bob aelod o'r awdurdod.*
3. *Rhaid i'r adolygiad gynnwys cyfle am gyfweliad gyda pherson sydd, ym marn yr awdurdod, yn briodol gymwys i roi cyngor am anghenion hyfforddi a datblygu aelod o awdurdod lleol.*

Yn ystod cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2022, penderfynwyd anfon arolwg at yr holl gynghorwyr o ran yr adolygiad blynyddol o Anghenion Hyfforddi a Datblygu'r Aelodau.

Anfonwyd arolwg at yr holl Gynghorwyr ddydd Llun 1 Chwefror 2023 a gofynnwyd iddynt ei gwblhau erbyn 28 Chwefror 2023.

Roedd gofyn i bob aelod sgorio eu gallu fel a ganlyn:

1 – dim gwybodaeth na phrofiad
2 –angen hyfforddiant a chymorth pellach
3 – gweithio tuag at fod yn hollol hyddysg
4 – cwbl hyddysg

Cyflwynodd wyth Aelod eu hymatebion. Roedd tri ohonynt wedi rhoi sgôr o 3 neu 4 o dan bob categori. Nid oedd yr un Aelod wedi rhoi sgôr o 1. Serch hynny, o'r pum Aelod a sgoriodd eu gallu fel 2, nodwyd y meysydd canlynol fel rhai lle'r oedd angen datblygiad a hyfforddiant pellach:

**a) A2: Deall rôl yr Awdurdod Lleol**

Rhoddodd un o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.
Yr hyfforddiant a ddarparwyd:

- Cyflwyniad i'r Cyngor - 10.05.2022
- Hyfforddiant Trosolwg a Chraffu - 08.06.2022

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:

- Craffu effeithiol
- Cyflwyniad i Lywodraethu Corfforaethol

- Cyllid Llywodraeth Leol
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Aelodau Etholedig

**b) A9: Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith**

Rhoddodd un o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.

Yr hyfforddiant a ddarparwyd:

- Iechyd a Diogelwch a Gweithio Unigol ar gyfer Aelodau Etholedig - 16.06.2022
- Hyfforddiant Lles - 02.10.2022

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:

- Arweinyddiaeth Gymunedol a Gwaith Achos
- Cyfarpar Sgrin Arddangos
- Iechyd a Diogelwch

**c) A10: Hunanofal**

Rhoddodd un o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.

Yr hyfforddiant a ddarparwyd:

- Iechyd a Diogelwch a Gweithio Unigol ar gyfer Aelodau Etholedig 16.06.2022
- Hyfforddiant Lles - 02.10.2022

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:

- Arweinyddiaeth Gymunedol a Gwaith Achos
- Cyfarpar Sgrin Arddangos
- Iechyd a Diogelwch

**d) A13: Sgiliau Cyfryngau Cymdeithasol**

Rhoddodd un o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.

Yr hyfforddiant a ddarparwyd:

- Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol - 10.11.2022

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:

- Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau
- Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Cymdeithasol

**e) A19: Cefnogaeth i Aelodau**

Rhoddodd un o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.

Yr hyfforddiant a ddarparwyd:

- Cyflwyniad i'r Cyngor - 10.05.2022
- Iechyd a Diogelwch a Gweithio Unigol ar gyfer Aelodau Etholedig -16.06.2022
- Hyfforddiant Lles - 02.10.2022
- Sesiwn galw heibio ar gyfer defnyddio Clic, ap Modern.Gov, system Ceri system, ac ati.

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:

- Arweinyddiaeth Gymunedol a Gwaith Achos
- Cyfarpar Sgrin Arddangos
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelwch Gwybodaeth

- Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau
- Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Cymdeithasol
- Chwythu'r Chwiban

**f) A22: Rhianta Corfforaethol**

Rhoddodd un o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.

Yr hyfforddiant a ddarparwyd:

- Rhianta Corfforaethol - 27.01.2023

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:

- Rhianta Corfforaethol

**g) B2: Datblygu ac adolygu polisi**

Rhoddodd dau o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.

Yr hyfforddiant a ddarparwyd:

- Cyflwyniad i'r Cyngor - 10.05.2022
- Rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu - 08.06.2022
- Rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus 09.06.2022

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:

- Craffu Effeithiol
- Cyflwyniad i Lywodraethu Corfforaethol

**h) B3: Dal y Weithrediaeth i gyfrif**

Rhoddodd dau o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.

Yr hyfforddiant a ddarparwyd:

- Cyflwyniad i'r Cyngor - 10.05.2022
- Rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu - 08.06.2022
- Rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus - 09.06.2022

Modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:

- Craffu Effeithiol
- Cyflwyniad i Lywodraethu Corfforaethol

**i) B4: Monitro perfformiad**

Rhoddodd un o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.

Yr hyfforddiant a ddarparwyd:

- Cyflwyniad i'r Cyngor - 10.05.2022
- Rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu - 08.06.2022
- Rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus - 09.06.2022

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:

- Craffu Effeithiol
- Cyflwyniad i Lywodraethu Corfforaethol

**j) B12: Cynllunio**

Rhoddodd un o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.
Yr hyfforddiant a ddarparwyd:
- Hyfforddiant ynghylch y Pwyllgor Rheoli Datblygu (agored i bob Cynghorydd) 27.05.2022 a 22.11.2022
- Gweithdy Rheoli Datblygu - 13.07.2022

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:
- Cyflwyniad i Gynllunio
- Cynllunio ar gyfer Pwyllgorau Cynllunio

**k) B16: Safonau**

Rhoddodd un o'r ymatebwyr sgôr o 2 o dan yr eitem hon gan ofyn am hyfforddiant a chymorth pellach.
Yr hyfforddiant a ddarparwyd:
- Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau - 24.05.2022
- Protocolau Moeseg a Safonau - 30.09.2022

Y modiwlau E-ddysgu sydd ar gael i'r Aelodau:
- Moeseg a Safonau

Os bydd angen rhagor o gymorth ar yr Aelodau, gellir cynnig cyfarfodydd un-i-un.

**Argymhellion:**

a) Yn unol ag Adran 7, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, wedi'i hatgyfnerthu gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynnig adolygiad i bob Aelod, ar ôl derbyn eu hymateb i'r arolwg, i drafod eu hanghenion hyfforddi unigol.
b) Darparu hyfforddiant ychwanegol lle bo angen.

| | |
|---|---|
| **Atodiadau:** | **Atodiad A – cwestiynau'r arolwg** |
| **Dogfennau Cefndir:** | Dim |
| **Enw:** | Lowri Edwards |
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | **20.02.2023** |